



Y Codiad Cyflog i Athrawon ar gyfer 2018/19

Cyflwyniad

Ar 14 Medi 2018, cyflwynodd Llywodraeth San Steffan y Gorchymyn Cyflogau Athrawon gerbron y Senedd. Ar yr un diwrnod, cyhoeddodd yr Adran Addysg (DfE) Ddogfen Cyflog ac Amodau Gwaith Athrawon Ysgol (STPCD) 2018 i Gymru a Lloegr, yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar fersiwn drafft o'r STPCD a gaeodd ar 3 Medi 2018. Mae Gorchymyn Cyflogau Athrawon 2018 yn berthnasol i athrawon yng Nghymru.

Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg yn Llywodraeth San Steffan wedi cynnig eisoes y dylid peidio â derbyn yn llawn Argymhelliad y Corff Adolygu Athrawon Ysgol (STRB) yn ei 28ain Adroddiad i roi codiad cyflog o 3.5% yn ystodau cyflog a lwfansau pob athro ac athrawes a phob arweinydd ysgol. Mae manylion 28ain Adroddiad y STPCD ar gael ar: www.nasuwt.org.uk/strb.

Gwrthwynebodd NASUWT yn gryf wrthodiad annerbyniol a digynsail yr Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth San Steffan i dderbyn argymhellion y STRB yn llawn. Mae ymatebion NASUWT i ymgynghoriad yr Adran Addysg ac i'r fersiwn drafft o'r STPCD ar gael ar:

www.nasuwt.org.uk/consultationresponses.

Y Codiad Cyflog ar gyfer 2018/19

Mae NASUWT yn disgwyl y bydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn talu, fan leiaf, y codiadau cyflog a ganlyn o 1 Medi 2018 ymlaen, wedi'u hôl-ddyddio i'r dyddiad hwnnw:

- codiad o 3.5% i bob athro ac athrawes sydd ar y brif ystod cyflog a'r ystod cyflog ar gyfer athrawon heb gymhwyso;
- codiad o 2% i bob athro ac athrawes sydd ar yr ystod cyflog uwch a'r ystod cyflog ar gyfer ymarferwyr arweiniol, ac i bob lwfans;
- codiad o 1.5% i bob arweinydd ysgol.

Mae'n annerbyniol i NASUWT bod ysgolion ac awdurdodau lleol yn atal athrawon rhag derbyn eu tâl, ac mae Ysgrifennydd Cyffredinol NASUWT wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yng Nghymru i esbonio safiad yr Undeb yn glir.

Mae graddfeydd cyflog NASUWT, sy'n gwneud y codiadau sydd wedi'u nodi uchod i werthoedd cyflog pob athro ac athrawes a phob arweinydd ysgol, ar gael ar: www.nasuwt.org.uk/payscales.

Arian ar gyfer y Codiad Cyflog i Athrawon

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth San Steffan wedi darparu grant ar gyfer cyflogau athrawon i ysgolion a gynhelir ac academiâu yn Lloegr. Heriodd NASUWT yn gryf y ffaith fod ysgolion yng Nghymru'n cael eu heithrio rhag derbyn unrhyw arian ychwanegol.

Gwrthwynebodd yr Undeb y driniaeth anghyfartal hon a dadleuodd ei fod yn annerbyniol i beidio rhoi arian i ysgolion yng Nghymru, sy'n cael eu rheoli gan y STPCD, pan fo academiâu yn Lloegr, nad ydynt yn cael eu rheoli gan y STPCD, yn derbyn grant. Ni ddylai athrawon yng Nghymru gael eu trin yn llai ffafriol.

Ar 14 Medi 2018, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol yn Llywodraeth San Steffan y bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn £8.7m yn 2018/19 a £14.8m yn 2019/20 i ariannu'r codiad cyflog i athrawon. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnig eto sut y bydd yr arian hwn yn cael ei ddosbarthu.

Bydd NASUWT yn mynnu i bob ysgol bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r arian hwn ar gyfer cyflogau athrawon yn unig a bod rhaid iddynt hefyd roi'r flaenoriaeth o fewn eu cyllidebau i sicrhau fod pob athro ac athrawes a phob arweinydd ysgol yn derbyn y codiad cyflog yn llawn.

Os oes aelodau sy'n pryderu am agwedd eu hysgol neu eu hawdurdod lleol tuag at y codiad cyflog i athrawon ar gyfer 2018/19, dylent gysylltu â rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk.

siaradwch
â ni

029 2054 6080

E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

Gwefan: www.nasuwt.org.uk

NASUWT  **CYMRU**
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union